**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Lun, Ionawr 18fed 2016 am 7.30 yh yng Nghanolfan Gwytherin

Ymddiheuriadau: Tecwyn Evans, Ifor Edwards, Gwydion Jones

Presennol: D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Ian W Griffith, Gerwyn Davies, Gwyn Williams, R Emlyn Williams, Elen H Edwards, Cyng D O Roberts a'r Clerc.

48.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Mynegodd Emlyn Williams gysylltiad ag eitem 6a Materion Cynllunio.

48.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 25ain Tachwedd a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu bod yn gywir. Hefyd cadarnhawyd bod cofnodion i drafod 'Cronfa Bro Cernyw' hefyd yn gywir.

48.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
48.3.1 TOILEDAU LLANGERNYW – roedd trafferth gyda'r trydan ond roedd wedi ei gysylltu ers ddechrau Ionawr.
48.3.2 PROSIECT HIRAETHOG – cafwyd ar ddeall bod panel Pandy Tudur bron yn barod a threfnwyd i gyfarfod Suryiah Evans yn y pentref ddydd Gwener Ionawr 22ain am 1.30 yh i drafod y safle ac i ofyn iddi sut un oedd y panel a'i faint. Hefyd PENDERFYNWYD i sôn wrthi am bwysigrwydd panel yng Ngwytherin.
48.3.3 MAST PEN Y FRON – cafwyd ymateb gan Peter Williams, Llywodraeth Cymru yn nodi ei fod yn siomedig fod y prosiect wedi ei ddileu a bod cwmni Arqiva wedi cael trafferthion gyda mastiau eraill yn y wlad. PENDERFYNWYD gofyn iddo lle oedd safle'r mastiau dan sylw. Hefyd i ofyn i Mr David Jones AS a wyddai ef beth oedd wedi digwydd i'r arian oedd wedi ei glustnodi ar gyfer y prosiectau.
48.3.4 PLANNU BLODAU YN Y TYBIAU – adroddodd Ann Vaughan bod blodau wedi eu plannu ym mhedwar o dybiau mawr Cyngor Conwy.
48.3.5 CŴN YN RHYDD AR DIR PREIFAT – bydd angen gosod arwyddion cadw cŵn ar dennyn ar ben y llwybr ac i ofyn i Kevin Roberts wneud hyn.
48.3.6 ARADR EIRA GWYTHERIN – bu cyfarfod safle gyda Elwyn Williams ac Emyr Jones ond nid oes modd newid pethau ar hyn o bryd ond bod angen monitro'r sefyllfa. Codwyd y mater bod ceir wedi methu mynd i fyny'r allt allan o Wytherin un bore yr wythnos flaenorol oherwydd eira a rhew. PENDERFYNWYD i ofyn pwy sy'n gyrru contractiwr neu lorri graeanu allan. Oni fyddai'n syniad da i gynghorwyr cymuned allu rhoi gwybod i'r Adran os oes pryder am gyflwr ffyrdd.
48.3.7 CYNGOR AR BOPETH – roedd y Prif Weithredwr yn barod i ddod i gyfarfod – angen trefnu eto'n fuan.

48.4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
48.4.1 CAU PONT HENDRE DDU – cyfeiriodd Cyng Dilwyn Roberts bod angen gwneud trefn ar yr Afon Gallen yn nes i fyny na'r bont ac efallai bydd angen pont newydd yno oherwydd y difrod.

48.4.2 HYSBYSFWRDD PANDY TUDUR - cytunwyd i ofyn i Kevin Roberts drwsio'r hysbysfwrdd.

48.5 CEISIADAU CYNLLUNIO
48.5.1 CAIS RHIF 0/42293 Estyniad i annedd yn Pen Llethr, Gwytherin gan Mr Euros Williams. Deallir bod y cais wedi ei gymeradwyo gan Gonwy a theimlwyd yn siomedig bod y penderfyniad wedi ei wneud cyn y dyddiad a gytunwyd gyda'r Clerc ar ebost. Fel arall PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.
48.5.2 APÊL HENDRE LLWYN Y MAEN App/T6905/A/15/3121914 – deallir bod Apêl i godi tyrbin gwynt 30.52m ac uchder blaen llafn o 45.07m wedi ei ganiatau gan yr Arolygiaeth Cynllunio.

48.6 CYLLIDEB Y CYNGOR A PENNU PRAESEPT 2016/17
48.6.1 CYFLOG Y CLERC – gadawodd y Clerc y cyfarfod a thrafodwyd y cyflog. PENDERFYNWYD i adael y cyflog fel y mae am eleni.
48.6.2 Y GYLLIDEB – cyflwynodd y Clerc gopiau o daliadau a derbyniadau y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn nesaf ac wedi trafodaeth penderfynwyd holi am bris cyfieithu cofnodion erbyn y cyfarfod nesaf a bod angen sefydlu Pwyllgor Toiledau yn fuan. PENDERFYNWYD i beidio codi'r praesept eleni (£9450) ac i roi gwybodaeth am hyn ar y wefan.
48.6.3 CRONFA BRO CERNYW – PENDERFYNWYD i roi £350 fel cydnabyddiaeth i'r Clerc am waith y Gronfa. Os bydd angen ail-agor y gronfa dylid ail edrych ar y gydnabyddiaeth.

48.7 DEFIBRULLATOR YM MRO CERNYW – derbyniwyd copi o lythyr gan Miss Meira Ll Owen at Gorff Rheoli Ysgol Bro Cernyw yn gofyn am ganiatad i osod defibrillator calon ar wal yr ysgol ar gyfer defnydd y cyhoedd. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

48.8 CYFARFOD RHANBARTH UN LLAIS – cafwyd adroddiad gan Diane M Roberts o'r cyfarfod yn Abergele. Diolchwyd iddi am fynychu.

48.9 CWRS UN LLAIS – DATGANOLI GWASANAETHAU – cafwyd adroddiad gan Ann O Vaughan o'r cwrs yn Abergele ar Dachwedd 30ain. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd edrych yn ofalus ar ddogfen drosglwyddo cyn ei derbyn e.e. y Toiledau. Diolchwyd i Ann Vaughan am yr adroddiad.

48.10 MATERION LLEOL
48.10.1 Angen edrych i mewn i gofrestru Cwt yr Hers yn Mynwent Gwytherin – cysylltu ag Adran Gyfreithiol Cyngor Conwy.
48.10.2 Llyn o ddŵr yn sefyll ar bont Rhydlechog ger Ty'n Ddôl, Gwytherin.
48.10.3 Dŵr ar y ffordd ger Nant Mawr, Tan Graig, Coed Digain a Glanrafon (wal wedi disgyn yma)
48.10.4 Tyllau drwg ar allt Capel Cefn Coch, Pentre Isa.
48.10.5 Clawr 'manhole' yn stad Glan Collen wedi suddo.
48.10.6 Allt Waterloo, ger y tai angen sylw.
48.10.7 Golau ymlaen drwy'r dydd ym Mhentre Isa.
48.10.8 Plastig a hen gyfrifiaduron wedi eu gadael ger giat ar allt Pentre Isa.
48.10.9 Dŵr yn llifo ar A548 ger Llwyn Du Isaf a'r ffordd am Ficerdy – yn beryglus iawn.
48.10.10 Cafwyd cwyn bod ceir yn parcio yn fler yn stad Parc Aelas – ddiwrnod y tân.
48.10.11 Ochr y ffordd yn feddal iawn gyferbyn â Fron Goch, Llanfair TH.
48.10.12 Gwterydd wedi tagu ar allt newydd Pandy Tudur (ger Cefn Ffynnon).
48.10.13 Dŵr yn sefyll yn llyn ar ffordd Cefn Castell am Langernyw.

48.10.14 Ffordd yn feddal iawn tu ucha i Bron Haul, Llangernyw.
48.10.15 Tirlithriad ar allt Pandy Tudur.
48.10.16 Twll yn y ffordd rhwng Gell a Helmydd ac angen sylw i allt Plas Matw.

48.11 BILIAU

| | |
|---|---|
| Un Llais Cymru (2 gwrs) | £35.00 |
| Canolfan Bro Cernyw (Hurio, Tâl aelodaeth a rhent cwpwrdd) | £52.00 |
| Cyflog a Chostau Clerc | £821.27 |
| Ann Vaughan (Blodau) | £13.10 |
| Hywel Evans (Cylchlythyr) | £7 |
| J K & E Roberts (Cwt yr Hers a hysbysfwrdd) | £498.00 |
| Cyllid y Wlad (TWE) | £6 |
| SLCC (Tâl Aelodaeth) | £77 |

48.12 CYFARFOD NESAF – 27ain Ionawr 2016. Daeth y cyfarfod i ben am 10.15 yh.

*Cymeradwywyd y Cofnodion ...D G Davies…………….. Dyddiad ...24/2/16………………*

Community Council Meeting was held on Monday, 18 January 2016 at 7.30 pm at the Community Centre, Gwytherin

Apologies: Tecwyn Evans, Ifor Edwards, Gwydion Jones

Present: D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Ian W Griffith, Gerwyn Davies, Gwyn Williams, R Emlyn Williams, Elen H. Edwards, Cllr D O Roberts & Clerk.

48.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. Emlyn Williams expressed connection with item 6a Planning Matters.

48.2 MINUTES - looked at minutes 25th November and RESOLVED unanimously that they are accurate. Also confirmed that minutes to discuss 'Bro Cernyw Fund' is also correct.

48.3 ISSUES ARISING
48.3.1 LLANGERNYW TOILETS - had trouble with electricity but has been linked since early January.
48.3.2 HIRAETHOG PROJECT - it was understood that the Pandy Tudur panel was almost ready and arranged to meet Suryiah Evans in the village on Friday 22nd January at 1.30 pm to discuss the site and to ask her about the panel and its size. Also RESOLVED to tell her about the importance of the panel in Gwytherin.
48.3.3 PEN Y FRON MAST - response by Peter Williams, the Welsh Government states that he was disappointed that the project had been deleted and that the company Arqiva has struggled with other masts in the country. RESOLVED to ask him where were the mast sites in question. Also to ask Mr David Jones MP if he knew what had happened to the money that had been earmarked for the projects.
48.3.4 PLANTING FLOWERS IN THE TUBS - Ann Vaughan reported that flowers have been planted in the four large tubs of Conwy Council.

48.3.5 DOGS LOOSE ON PRIVATE LAND - need signage to keep dogs on a lead at the start of the route and to ask Kevin Roberts to do this.
48.3.6 GWYTHERIN SNOW PLOUGH - a site meeting was held with Elwyn Williams and Emyr Jones but things cannot be changed at the moment but there is a need to monitor the situation. The issue was raised that cars had failed to go uphill out of Gwytherin one morning the previous week due to snow and ice. RESOLVED to ask who calls out the contractor or the girtter. Would it not be a good idea for community councillors to notify the Department if there is concern about the condition of roads.
48.3.7 CITIZENS ADVICE BUREAU - The Chief Executive was willing to attend a meeting - need to organize again soon.

48.4 ROAD ISSUES AND ENVIRONMENT
48.4.1 HENDRE DDU BRIDGE CLOSURE - Cllr Dilwyn Roberts referred to the need to sort out the river further up than the bridge and possibly a new bridge was needed because of the damage.
48.4.2 PANDY TUDUR NOTICEBOARD - agreed to ask Kevin Roberts to repair the noticeboard.

48.5 PLANNING APPLICATIONS
48.5.1 APPLICATION NUMBER 0/42293 Extension to dwelling at Pen Llethr, Gwytherin by Mr Euros Williams. It is understood that the application has been approved by Conwy and the councillors felt disappointed that the decision had been made before the date agreed with Clerk by email. Otherwise RESOLVED to support the application.
48.5.2 HENDRE LLWYN Y MAEN APPEAL App / T6905 / A / 15/3121914 - it is understood that Appeal for a wind turbine blade tip height of 30.52m and 45.07m has been approved by the Planning Inspectorate.

48.6 THE COUNCIL BUDGET 2016/17 PRECEPT SETTING
48.6.1 CLERK SALARY – the Clerk left the meeting and the Clerk salary was discussed. RESOLVED to leave the salary as it is this year.
48.6.2 BUDGET - The Clerk submitted copies of receipts and payments of the Council during the year and an estimate for the next year and after discussion decided to ask for the price for translating minutes for the next meeting and needed to establish a Toilets Committee soon. RESOLVED not to raise the precept this year (£ 9450) and to provide information about this on the website.
48.6.3 BRO CERNYW FUND - RESOLVED to award £350 in recognition of the work of the Clerk with the Fund. If necessary to re-open the fund we should review the recognition.

48.7 DEFIBRULLATOR IN BRO CERNYW - received a copy of a letter from Miss Meira Ll Owen to Ysgol Bro Cernyw Management Committee asking for permission to install a heart defibrillator on the school wall for public use. RESOLVED to support the application.

48.8 ONE VOICE REGION MEETING - Diane M Roberts reported on the meeting in Abergele. She was thanked for attending.

48.9 ONE VOICE COURSE - DEVOLUTION OF SERVICES – Ann O Vaughan reported on the course on November 30th in Abergele. Reference was made to the importance of looking carefully at the transfer document before accepting eg transferring the toilets. Ann Vaughan was thanked for the report.

48.10 LOCAL ISSUES

48.10.1 Need to look into registering the Hearse Shed in Gwytherin Cemetery - Legal Department Conwy Council to be contacted.
48.10.2 Water colleting on the bridge near Rhydlechog near Ty'n Ddôl, Gwytherin.
48.10.3 Water on the road near Nant Mawr, Tan Graig, Coed Digain and Glanrafon (wall has fallen)
48.10.4 Potholes on Cefn Coch Chapel hill, Pentre Isa.
48.10.5 Manhole cover in Glan Collen estate had sunk.
48.10.6 Waterloo Hill, near the houses – the road needs attention.
48.10.7 Street light on all day in Pentre Isa.
48.10.8 Plastic and old computers have been left near a gate on the Pentre Isa hill.
48.10.9 Water flows on the A548 near Llwyn Du Isaf and the road for Vicarage - very dangerous.
48.10.10 There was a complaint that cars were parked untidily in Parc Aelas - the day of the fire.
48.10.11 Roadside very soft opposite Fron Goch, Llanfair TH.
48.10.12 Gutters were blocked on new road Pandy Tudur (near Cefn Ffynnon).
48.10.13 Water standing on the road between Cefn Castell and Llangernyw.
48.10.14 Roadside very soft above Bron Haul, Llangernyw.
48.10.15 Landslide on the Pandy Tudur hill.
48.10.16 Hole in the road between Gell and Helmydd and attention required to Plas Matw hill.

48.11 BILLS
One Voice Wales (2 courses) £ 35.00
Canolfan Bro Cernyw (Hire, locker rental and subscriptions) £ 52.00
Salary and Cost Clerk £ 821.27
Ann Vaughan (Flowers) £ 13.10
Hywel Evans (Newsletter) £ 7
J K & E Roberts (the Hearse Shed and noticeboard) £ 498.00
Inland Revenue (PAYE) £ 6
SLCC (Membership Fee) £ 77

48.12 NEXT MEETING - 27th January 2016. The meeting concluded at 10.15 pm

*Minutes were approved D G Davies………… Date ………24/2/16…………………*